# A yw economi Cymru'n orddibynnol ar y sector cyhoeddus?

**Dr. Eleanor Roy a Martin Jennings**

**Disgwylir i wariant y sector cyhoeddus ostwng dros 10 y cant mewn termau real dros y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o effeithio'n drwm ar economi Cymru, gan fod cyfran y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus ar gyfartaledd yn llawer uwch yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig.**

## Effaith adolygiad o wariant y Deyrnas Unedig 2010


Dros y pedair blynedd nesaf, rhagwelir y bydd grant bloc Cymru yn gostwng £2 biliwn, neu 12 y cant mewn termau real. Disgwylir i ddyraniadau cyfalaf ostwng dros 40 y cant, tra bydd refeniw yn gostwng 8 y cant mewn termau real.

Bydd y gostyngiadau hyn mewn gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar staffio yn y sector cyhoeddus a bydd effeithiau canlyniadol sylweddol ar yr economi'n ehangach. Er enghraifft, gallai'r gostyngiad mawr mewn cyfalaf gael effaith sylweddol ar y diwydiant adeiladu. Byddai angen cryn dwf mewn cyflogaeth yn y sector preifat er mwyn cydbwyso'r gostyngiadau hyn.

## Economi Cymru

Ymddengys mai economi Cymru yw un o'r rhai gwannaf yn rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'r ystadegau diweddaraf ar Werth Ychwanegol Crynswth rhanbarthol yn dangos ei fod wedi gostwng 2.2 y cant yng Nghymru yn 2009 o'i gymharu â'r hyn a ddigwyddodd yn 2008.

**Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel canran o'r gweithlu cyfan, Hydref – Rhagfyr 2010**




*Ffynhonnell: ONS*

Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru yw'r Gwerth Ychwanegol Crynswth isaf y pen o holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.

Mae rhagolygon twf y dyfodol hefyd yn ansicr. Roedd adroddiad diweddar yn rhagweld twf cyfartalog o 1.6 y cant dros y 10 mlynedd nesaf yng Nghymru, o'i gymharu â 2.2 y cant ledled y Deyrnas Unedig.

## Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

Mae rhagolygon diweddaraf y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn amcangyfrif y bydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn gostwng tua 400,000 rhwng 2010-11 a 2015-16.


Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai tua 30,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu colli o ganlyniad i'r gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus.

Roedd y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cyflogi 342,000 o bobl ym mhedwerydd chwarter 2010. Mae hyn yn cyfrif am 26.4 y cant o'r gweithlu cyfan yng Nghymru, o'i gymharu â 21.4 y cant ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Dyma'r ail o'r brig o holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.

Yn ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y sector cyhoeddus datganoledig, mae gan nifer o asiantaethau'r  Deyrnas Unedig gyfan bresenoldeb amlwg yng Nghymru, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth drostynt. Ymhlith y rhain mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Tŷ'r Cwmnïau, Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn Nhŷ'r Cwmnïau ac yn y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau eisoes.

Bydd yn hanfodol bod y Llywodraeth newydd yn lleihau effaith toriadau yn y sector cyhoeddus ar economi Cymru.

# Erthygl o gyhoeddiad gan y Gwasanaeth Ymchwil




## Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei pharatoi'n arbennig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad gan y Gwasanaeth Ymchwil. Mae'n trafod rhai o'r pynciau hynny sy'n debygol o fod o bwys i Aelodau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad**

Am rhagor o gyhoeddiadau, gweler **ein tudalennau ar wefan y Cynulliad.**
**www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm**

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**